..........................

**Dechreuodd y Cyfarfod am 2.00pm**

..........................

## Cynnig i ohirio'r Rheolau Sefydlog

**NDM2828 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 37.5:

Yn gohirio Rheol Sefydlog 6.13 a'r rhan honno o Reol Sefydlog 5.4 sy'n ei gwneud yn ofynnol mai'r Datganiad Busnes wythnosol yw'r amserlen gytûn ar gyfer Busnes y Cynulliad yr wythnos ganlynol, i ganiatáu i'r Cynnig Heb Ddyddiad Trafod (NNDM2827) a osodwyd ar 1 Chwefror 2006 – i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog – gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 1 Chwefror 2006.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 21
**Derbyniwyd y cynnig**

..........................

## Cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog

**NNDM2827 Jenny Randerson (Canol Caerdyddl)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol gan weithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 37:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a e-bostiwyd at yr Aelodau ac a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Chwefror 2006; a

2. Yn cymeradwyo'r diwygiad i'r Rheolau Sefydlog a amlinellwyd yn Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 21
**Derbyniwyd y cynnig**

.............................

**2.01pm**

**Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**

Gofynnwyd y 6 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 2 yn ôl. Trosglwyddwyd cwestiwn 10 i gael ateb ysgrifenedig.

.............................

**2.33pm**

**Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes**

Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 7 yn ôl.

.............................

**3.04pm**

**Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig 2 (Cymru) 2006 - Sylweddau sy'n Teneuo'r Haen Oson**

**NDM2818 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Dan A88B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 21.11, yn cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 2) (Cymru) (2006) a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Ionawr 2006.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Derbyniwyd y cynnig**

..............................

### 3.16pm

### Datganiad Busnes drafft diwygiedig.

Cytunwyd ar y datganiad busnes.

..............................

### 3.18pm

### Dadl am Cymunedau yn Gyntaf

**NDM2816 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu cyflawniadau cadarnhaol y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

2. Yn cydnabod natur hirdymor y buddsoddiad sydd ei angen i sicrhau newid yn y maes hwn.

3. Yn ail-gadarnhau ymrwymiad y Rhaglen i berchnogaeth a gweithrediad lleol o fewn fframwaith y cytunwyd arno ar lefel genedlaethol.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):**

Ym mhwynt 2, cynnwys ar ôl 'ardal':

'ond yn nodi â phryder nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod unrhyw dargedau mesuradwy ar gyfer lleihau tlodi yn y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.'

**Gwelliant 1**
O Blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau pan gaiff ei gyhoeddi, y trafodir prif adroddiad y gwerthusiad parhaus o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf gan y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn.

**Gwelliant 2**
O Blaid 53; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 53
**Derbyniwyd Gwelliant 2**

**3. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithio gyda'r sector addysg i sicrhau bod digon o swyddogion datblygu cymunedol ledled Cymru sydd wedi cael eu hyfforddi'n broffesiynol.

**Gwelliant 3**
O Blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Derbyniwyd Gwelliant 3**

**4. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnwys Canolfannau Adnoddau Wardeniaid Rhanbarthol yn ei strategaeth Cymunedau yn Gyntaf.

**Gwelliant 4**
O Blaid 15; Ymatal 9; Yn erbyn 28; Cyfanswm 52
**Gwrthodwyd Gwelliant 4**

**5. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder oherwydd nad yw tai wrth galon adfywio cymunedol Cymru na'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

**Gwelliant 5**
O Blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd Gwelliant 5**

**6. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod perchnogaeth leol yn golygu y dylai rhan fwyaf y bartneriaeth ddod o gymunedau sydd wedi'u grymuso.

**Gwelliant 6**
O Blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd Gwelliant 6**

**7. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau na wahaniaethir yn erbyn holl ardaloedd etholiadol Rhaglen Cymunedau yn gyntaf (Pocedi o Amddifadedd) ac y cânt eu cynnwys yn nhargedau 'Ymgeisio yn Uwch, Ymgyrraedd yn Ehangach' Addysg Uwch.

**Gwelliant 7**
O Blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd Gwelliant 7**

**8. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cefnogi egwyddor rhaglen gwrthdlodi effeithiol a gyllidir yn dda.

**Gwelliant 8**
O Blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd Gwelliant 8**

**9. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r pryderon a godwyd yn y Gwerthusiad dros dro ar Raglen Cymunedau yn Gyntaf.

**Gwelliant 9**
O Blaid 54; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 54
**Derbyniwyd Gwelliant 9**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu cyflawniadau cadarnhaol y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

2. Yn cydnabod natur hirdymor y buddsoddiad sydd ei angen i sicrhau newid yn y maes hwn.

3. Yn ail-gadarnhau ymrwymiad y Rhaglen i berchnogaeth a gweithrediad lleol o fewn fframwaith y cytunwyd arno ar lefel genedlaethol.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau pan gaiff ei gyhoeddi, y trafodir prif adroddiad y gwerthusiad parhaus o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf gan y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithio gyda'r sector addysg i sicrhau bod digon o swyddogion datblygu cymunedol ledled Cymru sydd wedi cael eu hyfforddi'n broffesiynol.

6. Yn nodi'r pryderon a godwyd yn y Gwerthusiad dros dro ar Raglen Cymunedau yn Gyntaf.

**O blaid 54; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 54**
**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio**

..............................

**4.22pm**

## Dadl am Bolisïau Celfyddydau

**NDM2817 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y record o £181m a fuddsoddwyd yn y celfyddydau a'r cynnydd o 56% yng nghymorth grant Cyngor Celfyddydau Cymru er 1999.

2. Yn cefnogi'r amcan polisi o gynyddu lefelau cyfranogiad mewn cymunedau cymdeithasol-ddifreintiedig er mwyn sicrhau bod pob cymuned yng Nghymru yn elwa o nawdd cyhoeddus i'r celfyddydau.

3. Yn cadarnhau'r "egwyddor hyd braich" na ddylai gwleidyddion wneud unrhyw benderfyniadau ynglyn â chynnwys artistig.

4. Yn cadarnhau pwysigrwydd atebolrwydd democrataidd ym maes nawdd cyhoeddus o ran polisi, llywodraethu a seilwaith.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

1. Yn cyfarwyddo Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal adolygiad cyhoeddus yn ddi-oed o swyddogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru ac i atal, ar unwaith, bob gwaith sy'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â'i pharatoadau i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ariannu'n uniongyrchol Opera Cenedlaethol Cymru; Cerddorfa Genedlaethol Cymru; Diversions; Academi; Clwyd Theatr Cymru a Theatr Genedlaethol Cymru hyd nes:

a) bod ymgynghoriad cynhwysfawr wedi'i gynnal gyda phob parti sydd â diddordeb, gyda'r Pwyllgor

Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon i gytuno ar y telerau; a

b) ei bod yn ceisio cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol drwy gyfrwng cynnig a gyflwynir gan y Trefnydd ym mis Rhagfyr 2006.

**Gwelliant 1**
O Blaid 29; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 57
**Derbyniwyd Gwelliant 1**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cyfarwyddo Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal adolygiad cyhoeddus yn ddi-oed o swyddogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru ac i atal, ar unwaith, bob gwaith sy'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â'i pharatoadau i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ariannu'n uniongyrchol Opera Cenedlaethol Cymru; Cerddorfa Genedlaethol Cymru; Diversions; Academi; Clwyd Theatr Cymru a Theatr Genedlaethol Cymru hyd nes:

a) bod ymgynghoriad cynhwysfawr wedi'i gynnal gyda phob parti sydd â diddordeb, gyda'r Pwyllgor dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon i gytuno ar y telerau; a

b) ei fod yn ceisio cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol drwy gyfrwng cynnig a gyflwynir gan y Trefnydd ym mis Rhagfyr 2006.

2. Yn cydnabod y record o £181m a fuddsoddwyd yn y celfyddydau a'r cynnydd o 56% yng nghymorth grant Cyngor Celfyddydau Cymru er 1999.

3. Yn cefnogi'r amcan polisi o gynyddu lefelau cyfranogiad mewn cymunedau cymdeithasol-ddifreintiedig er mwyn sicrhau bod pob cymuned yng Nghymru yn elwa o nawdd cyhoeddus i'r celfyddydau.

4. Yn cadarnhau'r "egwyddor hyd braich" na ddylai gwleidyddion wneud unrhyw benderfyniadau ynglyn â chynnwys artistig.

5. Yn cadarnhau pwysigrwydd atebolrwydd democrataidd ym maes nawdd cyhoeddus o ran polisi, llywodraethu a seilwaith.

O blaid 29; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 57
**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio**

**4.36pm**
Cynnig Trefniadol
Cynigiodd y Trefnydd gynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.21 i ymestyn y cyfarfod am 30 munud.
Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig trefniadol
O blaid 37; Ymatal 2; Yn erbyn 8; Cyfanswm 47

..........................

**5.35pm**

**Dadl fer - NDM2815 Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Dyfodol Gofal Iechyd yn y Canolbarth a'r Gorllewin**

..........................

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.02pm**

..................................

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth,**

**7 Chwefror 2006**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**